# ADOLYGIAD 2017 O EFFAITH CYNLLUN BUSNES GWEINIDOGION CYMRU A'R MODD Y CAIFF EI ROI AR WAITH

**CYNNWYS**

| | |
|---|---|
| **Argymhellion** | **1** |
| **Cyflwyniad** | **2** |
| **Cefndir** | **2-3** |
| **Crynodeb o Ymatebion** | **3-9** |
| **Casgliad** | **9** |

**Cynnal adolygiad o Effaith Cynllun Busnes Gweinidogion Cymru a'r modd y caiff ei roi ar waith**

**Crynodeb o'r dystiolaeth**

**Argymhelliad 1:** Cryfhau'r cyfeiriad at y Cynllun Busnes ym mholisi Llywodraeth Cymru, asesiadau o effaith a chanllawiau ymgysylltu ar gyfer staff, ac ystyried cyfleoedd ar gyfer hyrwyddo'r canllawiau ar draws Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 2:** Gofyn i Grŵp Strategaeth Partneriaid Cymdeithasol i ystyried swyddogaeth a phwrpas partneriaethau cymdeithasol a gwneud argymhellion ar hynny.

**Argymhelliad 3:** Ystyried y cyfleoedd i hyrwyddo'r Cynllun Busnes ymhellach o fewn Llywodraeth Cymru gan gynnwys y gwaith gan sefydliadau sy'n darparu gwasanaethu i hyrwyddo'r cysylltiad rhwng Llywodraeth Cymru a Phartneriaid Cymdeithasol.

**Argymhelliad 4:** Mae'r darparwr gwasanaethau i hwyluso'r cysylltiad rhwng Llywodraeth Cymru a'r Partneriaid Cymdeithasol yn cynhyrchu Adroddiad Blynyddol i Gyngor Datblygu'r Economi ar ei weithgareddau i hwyluso cysylltiad.

**Argymhelliad 5:** Defnyddio canllawiau polisi a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru i hyrwyddo swyddogaeth y darparwr gwasanaethau i hwyluso'r cysylltiad rhwng Llywodraeth Cymru a Phartneriaid Cymdeithasol.

**Argymhelliad 6:** Mae'r darparwr gwasanaethau i hwyluso cysylltiad rhwng gwasanaethau ymgysylltu â busnesau i Lywodraeth Cymru yn datblygu perthynas gyda swyddogion arweiniol Llywodraeth Cymru i hwyluso cysylltiad yn ystod y cyfnod cychwynnol ar bolisïau sy'n cael effaith ar fusnesau.

**Argymhelliad 7:** Grŵp Strategaeth Partneriaid Cymdeithasol i ystyried manteision a'r dulliau o gael dangosyddion ansoddol posibl i fesur y Cynllun ar gyfer Busnes.

**Argymhelliad 8:** Ystyried yr asesiadau ar effeithiau deddfwriaeth, rheoliadau a pholisi ar Bartneriaid Cymdeithasol (yn bositif a negyddol) fel rhan o weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## Cyflwyniad

1. Mae'r adroddiad hwn yn pennu canlyniad arolygiad 2017 ar weithredu Cynllun Busnes Gweinidogion Cymru (Cynllun ar gyfer Busnes)[1].

2. Cylch Gorchwyl yr adolygiad oedd:

   i. ystyried y defnydd o'r Cynllun ar gyfer Busnes hyd yma; ac

   ii. ystyried pa mor effeithiol y caiff y Cynllun Busnes ei roi ar waith ar draws Llywodraeth Cymru.

3. Cafodd y cylch gorchwyl ei gyflwyno i gyfarfod Cyngor Datblygu'r Economi ar 19 Gorffennaf 2017[2].

## Y Cefndir

4. Mae Cynllun Busnes Gweinidogion Cymru yn cael ei wneud o dan Adran 75 Deddf Llywodraeth Cymru 2006[3], sy'n ei wneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio cynllun sy'n esbonio sut y byddant, wrth arfer eu swyddogaethau, yn ystyried buddiannau busnesau [4]. Y Prif Weinidog sydd â chyfrifoldeb cyffredinol o fewn Llywodraeth Cymru dros y Cynllun ar gyfer Busnes.

5. Prif egwyddor y Cynllun ar gyfer Busnes yw y dylai Partneriaid Cymdeithasol fod yn rhan o'r broses o lunio polisïau cyn gynted â phosibl.

6. O dan y Cynllun ar gyfer Busnes, bydd swyddogion arweiniol o fewn Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am gysylltu â Phartneriaid Cymdeithasol i hyrwyddo a datblygu cyd-ddealltwriaeth o sut y mae pob un ohonynt yn gweithredu.

7. Mae'r Cynllun ar gyfer Busnes yn cynnwys y gofyn bod Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi adroddiad o leiaf bob dwy flynedd sy'n disgrifio sut y mae'r cynigion yn y Cynllun ar gyfer Busnes wedi'u rhoi ar waith.

8. Cytunodd Cyngor Datblygu'r Economi ar newidiadau i'r Cynllun yn ei gyfarfod ar 26 Ionawr 2017:

---

[1] http://gov.wales/topics/businessandeconomy/welsh-economy/economiccouncil/?skip=1&lang=cy

[2] CfER2/170719/2 - http://gov.wales/docs/det/meetings/170719-cfed-paper-to-note-2-cy.pdf

[3] http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2006/32/contents

[4] Mae'r term 'busnes' yn cynnwys yr holl unigolion a'r cyrff corfforaethol sy'n cynnal busnes er mwyn ceisio creu elw. Mae'n cynnwys y rhai sy'n gweithio o fewn y sector mentrau cymdeithasol a'r cymdeithasau hynny sy'n cynrychioli unigolion a chyrff corfforaethol o'r fath; a hefyd y sefydliadau hynny sy'n cynrychioli unigolion sydd ynghlwm wrth greu'r elw hwnnw, gan gynnwys undebau llafur.

i. newid yr enw o Gyngor Adnewyddu'r Economi i Gyngor Datblygu'r Economi; a

ii. sefydlu cysylltiad ffurfiol rhwng y Cyngor a Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru (WESB) i gynnwys gwahodd Cadeirydd WESB i ddod yn aelod o'r Cyngor.

**Methodoleg**

9. Cafodd y dystiolaeth ar gyfer yr adolygiad ei chasglu drwy holiadur a ddosbarthwyd i uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru a thrwy Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru, at Bartneriaid Cymdeithasol.

10. Cafwyd ymatebion gan dri o'r Partneriaid Cymdeithasol: Ffederasiwn Busnesau Bach, Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW) a Chanolfan Cydweithredol Cymru. Cafwyd ymatebion hefyd gan y pump Is-adran o fewn Llywodraeth Cymru (Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyflogadwyedd Sgiliau a Chyllid yr UE, Llywodraeth Leol, Trafnidiaeth a Thrysorlys Cymru).

11. Mae crynodebau o'r ymatebion i'r cwestiynau wedi eu nodi yn yr adrannau canlynol.

**Cwestiwn 1: Pa mor effeithiol yw Llywodraeth Cymru o safbwynt ystyried buddiannau busnes yn ei gwaith a'i phroses o wneud penderfyniadau?**

**Crynodeb: Mae enghreifftiau o Lywodraeth Cymru yn ystyried buddiannau busnes wrth wneud penderfyniadau a chydweithio gyda Phartneriaid Cymdeithasol. Fodd bynnag, mae angen trafod o'r cychwyn a gwella cysondeb ar draws y sefydliad.**

12. Pa mor effeithiol yw Llywodraeth Cymru o safbwynt ystyried buddiannau busnes yn ei gwaith a'r broses o wneud penderfyniadau. Fodd bynnag, roedd y perfformiad yn amrywio'n sylweddol rhwng meysydd o arfer da a'r rhai hynny sydd angen eu gwella yn sylweddol. Mae portffolio yr economi a thrafnidiaeth yn cael ei ystyried yn enghraifft dda ar y cyfan. Roedd enghreifftiau penodol o Arfer Da yn cynnwys:

i. cynnwys Partneriaid Cymdeithasol ar amryw o gyrff cynghori a grwpiau Llywodraeth Cymru sy'n gweithredu ar draws sawl portffolio; a

ii. cyfraniad busnes at lunio a datblygu polisi treth Cymru a chyngor cysylltiedig.

13. Roedd partneriaid cymdeithasol, fodd bynnag, yn teimlo bod cyfle wedi ei golli gan Lywodraeth cymru am gysylltiad mwy rhagweithiol wrth ddatblygu'r Strategaeth Cenedlaethol 'Ffyniant i Bawb'. Hefyd, mae'r grŵp o bartneriaid cymdeithasol a sefydlwyd i gynnig cyngor ar faterion sy'n gysylltiedig ag ymadael â'r UE yn cynnig y posibilrwydd pellach o fod yn fwy rhagweithiol wrth ddatblygu polisïau mewn maes polisi pwysig.

14. O safbwynt Llywodraeth Cymru, er bod camau sylweddol wedi'u cymryd i feithrin cysylltiad ystyrlon gyda phartneriaid cymdeithasol, roedd swyddogion yn cydnabod y gellid gwneud mwy. Yn benodol, roedd angen cael mwy o gysondeb yn y ffordd yr aethpwyd i'r afael â'r materion hyn ar draws Llywodraeth Cymru, yn ogystal ag ymateb i bryderon partneriaid cymdeithasol i'r cysylltu gael ei wneud yn ddigon cynnar o fewn y broses o lunio polisïau.

**Argymhelliad 1: Cryfhau'r cyfeiriad at y Cynllun Busnes ym mholisi Llywodraeth Cymru, asesiadau o effaith a chanllawiau ymgysylltu ar gyfer staff ac ystyried cyfleoedd ar gyfer hyrwyddo'r canllawiau ar draws Llywodraeth Cymru.**

**Cwestiwn 2: Pa mor effeithiol yw'r gwaith partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a phartneriaid cymdeithasol?**

**Crynodeb: Mae enghreifftiau o weithio effeithiol mewn partneriaeth, ond gellid gwneud mwy i wella tryloywder, pa mor aml y ceir cysylltiad â phartneriaid cymdeithasol a pha mor effeithiol yw.**

15. Mae sawl achos o weithio mewn partneriaeth â Phartneriaid Cymdeithasol ar draws Llywodraeth Cymru. Mae'r gweithio mewn partneriaeth wedi'i gryfhau yn ddiweddar gyda newidiadau i weithrediad Cyngor Datblygu'r Economi a sefydlu'r Grŵp Strategaeth Partneriaid Cymdeithasol. Fodd bynnag, gellid gwneud mwy i wella tryloywder, pa mor aml y mae cysylltiad â phartneriaid cymdeithasol a pha mor effeithiol yw y tu allan i'r strwythurau ffurfiol hyn.

16. Roedd un ymatebwr yn cydnabod swyddogaeth y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig ar hyn o bryd gan Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru wrth helpu i hwyluso cyfathrebu effeithiol rhwng partïon sydd â diddordeb a darparu gwybodaeth am bolisïau Llywodraeth Cymru a chyfleoedd i ymgynghori.

17. Roedd Partneriaid Cymdeithasol yn teimlo bod angen gwneud rhagor o waith i wella'r ddealltwriaeth sydd o allu Partneriaid Cymdeithasol i ymateb i gynifer o ymgynghoriadau polisi. Teimlwyd hefyd y gallai pawb elwa o ddealltwriaeth clir a chytûn o swyddogaeth a phwrpas partneriaeth gymdeithasol.

**Argymhelliad 2: Gofyn i Grŵp Strategaeth Partneriaid Cymdeithasol i ystyried swyddogaeth a phwrpas y partneriaethau cymdeithasol a gwneud argymhellion ar hynny.**

**Cwestiwn 3: Sut y caiff yr effaith ar fusnesau ei hystyried yn effeithiol yn y gwaith o ddatblygu polisi?**

**Crynodeb: Mae rhai o enghreifftiau da o Lywodraeth Cymru yn cysylltu â busnesau wrth ddatblygu polisïau. Fodd bynnag, mae angen mwy o eglurder a chysondeb wrth fynd i'r afael ag asesu'r effaith ar draws y sefydliad.**

18. Tynnwyd sylw at nifer o enghreifftiau o sut y mae meysydd polisi yn cysylltu gyda busnesau wrth ddatblygu polisïau. Mae'r gwaith o ddiwygio Llywodraeth Leol wedi ei grybwyll fel enghraifft o arfer da. Roedd rhan o'r gwaith hwn yn cynnwys gweithdy arbennig ar gyfer cynrychiolwyr busnes i drafod cynigion ar gyfer diwygio ac i gael dealltwriaeth gliriach o'r hyn y maent ei angen gan Lywodraeth Leol yn y dyfodol.

19. Roedd partneriaid cymdeithasol yn pwysleisio pwysigrwydd asesiadau o effaith effeithiol a chadarn a'u swyddogaeth wrth gefnogi y broses o lunio polisïau da. O safbwynt partner cymdeithasol, mae'r defnydd o asesiadau o effaith yn llai cyson ar draws y Llywodraeth a gellid gwneud mwy i orfodi adrannau i'w defnyddio, yn enwedig wrth wneud penderfyniadau pwysig ym maes polisïau.

20. Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn teimlo bod yr effaith ar fusnesau yn cael ei ystyried yn rheolaidd fel rhan o fusnes arferol, yn hytrach na bod yn ganlyniad mynd ati yn uniongyrchol i orfodi'r Cynllun ar gyfer Busnes.

21. Mae Partneriaid Cymdeithasol yn credu bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn sbardun deddfwriaethol i ystyried safbwyntiau ehangach fel bod ystyriaethau economaidd yn cael eu hystyried ochr yn ochr ag ystyriaethau cymdeithasol ac amgylcheddol.

**Argymhelliad 3: Ystyried y cyfleoedd i hyrwyddo'r Cynllun ar gyfer Busnes ymhellach o fewn Llywodraeth Cymru gan gynnwys y gwaith gan sefydliadau sy'n darparu gwasanaethu i hyrwyddo'r cysylltiad rhwng Llywodraeth Cymru a Phartneriaid Cymdeithasol.**

**Cwestiwn 4: I ba raddau y mae modd i bartneriaid cymdeithasol gyfrannu at gam ffurfiannol wrth i Lywodraeth Cymru ddatblygu a/neu newid polisïau a rhaglenni?**

**Crynodeb: Er bod nifer o achosion ble y mae Partneriaid Cymdeithasol wedi bod yn rhan o'r broses o lunio polisïau o'r cychwyn - mae angen i enghreifftiau o'r fath fod y drefn arferol. Mae partneriaid cymdeithasol yn ystyried bod angen i Lywodraeth Cymru gymryd camau pellach i fynd i'r afael â hyn.**

22. Nodwyd nifer o enghreifftiau o Bartneriaid Cymdeithasol yn cyfrannu at y camau ffurfiannol. Roedd hyn yn cynnwys yr agenda gyflogadwyedd ble y bu Llywodraeth Cymru yn cydweithio â Phartneriaid Cymdeithasol i ddatblygu agweddau allweddol o bolisïau cyflogadwyedd a chynlluniau cyflawni cysylltiedig.

23. Roedd yr ymatebion gan swyddogion Llywodraeth Cymru yn pwysleisio swyddogaeth amrywiol gyrff a grwpiau cynghori sy'n cynnwys cynrychiolwyr Partneriaid Cymdeithasol ac sy'n rhoi cyfle i gyfrannu at ddatblygu a thrafod polisïau. Mae gan y grwpiau hyn swyddogaeth bwysig fel dull o dynnu sylw Partneriaid Cymdeithasol at ymgynghoriadau yn y dyfodol, gan roi cyfle i Bartneriaid Cymdeithasol drafod ac ymgynghori yn gynnar ac yn barhaus.

24. Roedd Partneriaid Cymdeithasol yn teimlo bod hwn yn faes arall ble yr oedd amrywio sylweddol rhwng arfer gorau a pherfformiad gwael. Hefyd, roedd Partneriaid Cymdeithasol wedi nodi bod gormod o achosion ble yr oedd polisïau wedi datblygu'n sylweddol erbyn yr amser yr oeddent yn rhan o'r broses, ac nad oedd pwrpas eu cynnwys erbyn hynny.

**Argymhelliad 4: Mae'r darparwr gwasanaethau i hwyluso'r cysylltiad rhwng Llywodraeth Cymru a'r Partneriaid Cymdeithasol[5] yn cynhyrchu Adroddiad Blynyddol i Gyngor Datblygu'r Economi ar ei weithgareddau i hwyluso cysylltiad.**

**Cwestiwn 5: I ba raddau mae Llywodraeth Cymru'n ymwybodol o ddatblygiadau a phryderon a nodir gan y Partneriaid Cymdeithasol ac i ba raddau y mae'n eu hystyried?**

**Crynodeb: Er bod rhai enghreifftiau o arfer da, gellid gwella rhai dulliau o drafod i sicrhau cysylltiad rhagweithiol yn hytrach nac adweithiol.**

25. Crybwyllwyd nifer o achosion o Lywodraeth Cymru yn ystyried materion a godwyd gan y Partneriaid Cymdeithasol. Er enghraifft, sicrhau bod cynaliadwyedd y gwasanaethau bysiau yng Nghymru yn y dyfodol yn cael ei lywio gan nifer o gwmnïau bws profiadol ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys adborth ar broblemau mynediad gan grwpiau anableddau, gan sicrhau y gall y gweithwyr gael mynediad i'w gwaith a Phartneriaid Cymdeithasol yn ymateb i fethiant dadreoleiddio'r gwasanaethau.

26. Pwysleisiodd Partneriaid Cymdeithasol y gellid gwneud mwy i sicrhau bod trafodaethau rhagweithiol yn hytrach nag adweithiol ac y gellid rhoi mwy o gyfle i Bartneriaid Cymdeithasol gynnig eu syniadau a'u hatebion eu hunain, yn hytrach nad

[5] Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru Ar hyn o bryd

dim ond ymateb i agenda Llywodraeth Cymru. Roedd Partneriaid Cymdeithasol yn teimlo y gellid cryfhau y dulliau trafod presennol i gefnogi hyn.

27. Roedd Partneriaid Cymdeithasol yn ystyried bod gwerth cael amryw o Ysgrifenyddion a Gweinidogion y Cabinet i ddelio â Chyngor Datblygu'r Economi ar ystod eang o faterion, gan deimlo bod hyn yn help i hyrwyddo swyddogaeth Partneriaid Cymdeithasol wrth ddatblygu polisïau. Roeddent yn awyddus i gryfhau cysylltiad o'r fath ar draws Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 5: Defnyddio canllawiau polisi a deddfwriaethol Llywodraeth Cymru i hyrwyddo swyddogaeth y darparwr gwasanaethau i hwyluso'r cysylltiad rhwng Llywodraeth Cymru a Phartneriaid Cymdeithasol[6].**

**Cwestiwn 6: Pa mor effeithiol yw'r ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru a Phartneriaid Cymdeithasol o safbwynt materion cyffredin ym maes polisi a gweinyddu?**

**Crynodeb: Mae enghreifftiau clir o gysylltu da a phan fo hyn yn digwydd mae'n gwella'r broses o lunio polisïau, ond mae angen i'r trafodaethau fod yn fwy cyson, a ble yn bosibl, i ddechrau'n gynt.**

28. Enghraifft a ddefnyddiwyd i ddangos trafodaethau effeithiol yw Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru (WESB), sydd â chynrychiolwyr o'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, o gyrff sy'n cynrychioli cyflogwyr (Cydffederasiwn Diwydiant Prydain a Ffederasiwn Busnesau Bach) a TUC Cymru.

29. Mae gwelliannau'n cael eu gwneud drwy esblygiad y Grŵp Strategaeth Partneriaid Cymdeithasol, er y gellid defnyddio hwn yn fwy effeithiol ar gyfer trafodaethau anffurfiol cynnar ynghylch materion polisi a strategaethau.

30. Dywedodd un Partner Cymdeithasol bod y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru yn help i gynnal trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru yn ogystal â Phartneriaid Cymdeithasol.

**Argymhelliad 6: Mae'r darparwr gwasanaethau i hwyluso cysylltiad rhwng gwasanaethau ymgysylltu â busnesau i Lywodraeth Cymru[7] yn datblygu perthynas gyda swyddogion arweiniol Llywodraeth Cymru i hwyluso cysylltiad yn ystod y cyfnod cychwynnol ar bolisïau sy'n cael effaith ar fusnesau.**

[6] Ar hyn o bryd Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru
[7] Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru Ar hyn o bryd

**Cwestiwn 7 ac 8: Allwch chi bennu dangosyddion penodol ar gyfer mesur y Cynllun ar gyfer Busnes?**

**Sut y dylid gwerthuso effaith y Cynllun ar gyfer Busnes yn y dyfodol yn eich barn chi?**

**Crynodeb: Caiff yr anhawster o nodi cyfres benodol o fesurau ei gydnabod yn ogystal â'r angen i osgoi cymhlethdod wrth ddatblygu cyfres newydd o fesurau. Fodd bynnag, mae posibilrwydd o edrych ar nifer cyfyngedig o fesurau ansoddol, yn dilyn trafodaethau pellach gyda'r Grŵp Strategaeth Partneriaid Cymdeithasol.**

31. Roedd Partneriaid Cymdeithasol a swyddogion Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr anhawster o fesur dylanwad partner cymdeithasol ar bolisi, gan ei fod yn anniriaethol, yn hytrach na bod yn amlwg yn ganlyniad mesur penodol. Hefyd, mae consensws cyffredinol ynghylch yr angen i osgoi cymhlethdod drwy gael dangosyddion sy'n gorgyffwrdd neu ddyblygu. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd cyfle i edrych ar nifer fechan o fesurau ansoddol a allai fod yn berthnasol i feysydd megis boddhad partneriaid cymdeithasol gyda'r trafodaethau neu ymwybyddiaeth o bolisïau newydd Llywodraeth Cymru.

32. Roedd ymatebwyr yn teimlo y gallai arfarnu'r Cynllun Busnes fod yn destun trafodaethau pellach yn y Grŵp Strategaeth Partneriaid Cymdeithasol.

**Argymhelliad 7: Grŵp Strategaeth Partneriaid Cymdeithasol i ystyried manteision a'r dulliau o gael dangosyddion ansoddol posibl i fesur y Cynllun Busnes.**

**Cwestiwn 9: A gaiff effeithiau deddfwriaeth, rheoliadau a pholisïau ar Bartneriaid Cymdeithasol (rhai positif a negyddol) eu hystyried yn effeithiol?**

**Crynodeb: Tra bo Partneriaid Cymdeithasol yn ystyried bod hanes Llywodraeth Cymru o ystyried effaith yn bositif ar y cyfan, gellid gwneud mwy i ystyried effeithiau deddfwriaeth, rheoliadau a pholisi ar rannau penodol o'r economi a busnes.**

33. Ar y cyfan, teimlwyd bod gan Lywodraeth Cymru hanes da ym maes ymgynghori ac mae'n amlwg yn holi am fewnbwn ar gyfer ei newidiadau polisi pwysicaf. Mae rhai Partneriaid Cymdeithasol yn bryderus ynghylch eu gallu i ymateb i ymgynghoriadau niferus. Pwysleisiwyd y gwaith sy'n gysylltiedig â threthi datganoledig fel enghraifft effeithiol o achos y bu i Lywodraeth Cymru drafod mewn dull agored a thryloyw. Roedd Partneriaid Cymdeithasol yn teimlo eu bod wedi gallu dylanwadu'n uniongyrchol ar ddeddfwriaeth, rheoliadau a pholisi gan bod y rhain wedi eu datganoli.

34. Codwyd rhai pryderon gan y Partneriaid Cymdeithasol ynghylch dull ehangach Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael â rheoleiddio a fyddai'n amlwg yn elwa o ddatganiad clir o fwriad Llywodraeth Cymru yn y maes hwn, a'i pholisi ar gyfer gwella rheoleiddio.

35. Gellid gwneud mwy i ystyried effeithiau arbennig ar rannau penodol o'r economi a busnes drwy asesiadau effaith sydd yn cyd-fynd yn well â'r math o fusnes, sector a maint.

**Argymhelliad 8: Ystyried asesu effeithiau deddfwriaeth, rheoliadau a pholisi ar Bartneriaid Cymdeithasol (yn bositif a negyddol) fel rhan o weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.**

**Casgliad**

36. Yn seiliedig ar yr atebion a ddaeth i law, roedd nifer o enghreifftiau da o Lywodraeth Cymru yn cydweithio gyda Phartneriaid Cymdeithasol i ystyried effaith polisïau ar fusnesau. Mae cyfeirio hefyd at amrywiol grwpiau cynghori sydd â chynrychiolwyr o bartneriaid cymdeithasol, sy'n cryfhau y cydweithio o fewn partneriaeth. Fodd bynnag, mae'r darlun yn bytiog ledled Llywodraeth Cymru, ac mae lle i wella y broses o ymgynghori yn gynnar gyda busnesau. Mae'n ymddangos nad yw swyddogion o fewn Llywodraeth Cymru yn deall gallu Partneriaid Cymdeithasol i ddelio gyda nifer yr ymgynghoriadau polisi.

37. Teimlai Partneriaid Cymdeithasol y gallai dull Llywodraeth Cymru o reoleiddio fod yn well trwy ddefnyddio dull mwy eglur o sicrhau adnoddau ar gyfer gwaith, i wella rheoleiddio, cryfhau yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a chael gweledigaeth glir o'r hyn y mae Llywodraeth Cymru am ei gael o reoleiddio.

38. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried safbwynt ehangach partneriaid cymdeithasol yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, fel bod safbwyntiau ehangach yn cael eu hystyried. Mae Grŵp Strategaeth Partneriaid Cymdeithasol yn rhoi cyfle i drafod materion sy'n gysylltiedig â pholisi a strategaeth.